


Ystâd y Penrhyn yng Nghapel Curig

Sefydlwyd ystâd y Penrhyn yn gynnar yn y bymthegfed ganrif gan Gwilym ap Gruffydd. Trwy ei fam Generys fe etifeddodd gyfran o dir o amgylch Castell Penrhyn, a fferm Gelli'r Mynach (Gelli) yng Nghapel Curig. Fe ehangodd yr ystâd yn egniol â chymorth ei ail wraig, yr aeres Seisnig Joan Stanley. Ar ôl iddo farw yn 1431, mae'n debyg mai Gwilym oedd y dyn cyfoethocaf yng ngogledd Cymru. Fe wnaeth ei weddw Joan barhau i ehangu'r ystâd, gan brynu rhan o Ddyffryn Mymbyr.



Fe wnaeth brawd Gwilym sef Robyn ap Gruffydd etifeddu tiroedd ei fam yn nhrefordd Bodvayo, ym mhlwyf Llanllechid, ac fe wnaeth sefydlu'r ystad Cochwillan. Roedd yr ystâd yn berchen ar dir ar ochr ogleddol Nant y Benglog a oedd yn cynnwys ffermydd Tal y Braich a Glan Llugwy. Erbyn 1620, roedd gan aer Cochwillan, Henry Williams, gymaint o ddyledion fel bod rhaid iddo werthu'r ystâd, a brynwyd yn fuan wedyn gan ei gyfnither John Williams, Esgob Lincoln, Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr, ac yn ddiweddarach Archesgob Efrog. Yn yr un flwyddyn, fe brynodd yr Esgob Williams lawer o ystâd y Penrhyn hefyd ar ôl i'w pherchennog Pyrs Griffith fynd yn fethdalwr.

Fe rannwyd perchenogaeth ystâd y Penrhyn ar ôl 1684 pan wnaeth dwy aeres, Anne Warburton a Gwen, yr Arglwyddes Young, etifeddu. Fe ail-unodd Richard Pennant, yr Arglwydd Penrhyn yn ddiweddarach, y ddau hanner yn y 1770au pan briododd ag Anna Susannah Warburton, aeres un hanner, gan etifeddu yr ail hanner yr oedd ei dad wedi ei brynu gan Syr George Young. Fe gwblhaodd ei aer G. H. D. Pennant berchenogaeth ar Benrhyn yng Nghapel Curig trwy brynu ffermydd Tal y Waen, Bodesi a Thal Llyn Ogwen ym 1828 yn dilyn methdaliad ystâd Coetmore. Fe ddaeth buddsoddiad yr ystâd mewn ffermydd, trafndiaeth a thwrstiaeth â ffyniant newydd i Gapel Curig.



Neuadd Cochwillan, a adeiladwyd tua diwedd yn y 15fed ganrif gan Gwilym ap Gruffydd ap Robin. Cochwillan Hall, built in the late 15th century by Gwilym ap Gruffydd ap Robin.

The Penrhyn estate in Capel Curig


The Penrhyn estate was founded in the early fifteenth century by Gwilym ap Gruffydd. Through his mother Generys he inherited a share of land around Penrhyn Castle, and Gelli'r Mynach (Gelli) farm in Capel Curig. He expanded the estate vigorously with the aid of his second wife, the English heiress Joan Stanley. On his death in 1431, Gwilym was probably the richest man in north Wales. His widow Joan continued the estate expansion, buying part of Dyffryn Mymbyr.

Gwilym's bother Robyn ap Gruffydd inherited his mother's lands in Bodvayo township, parish Llanllechid, and founded the Cochwillan estate. The estate owned land on the northern side of Nant y Benglog comprising Tal y Braich and Glan Llugwy farms. By 1620, the Cochwillan heir Henry Williams became so indebted that he was obliged to sell the estate, which was soon bought by his cousin John Williams (born in Conwy), Bishop of Lincoln, Lord Keeper of the Great Seal, and later Archbishop of York. The same year, Bishop Williams also acquired much of the Penrhyn estate after the bankruptcy of its owner Pyrs Griffith.


Ownership of the Penrhyn estate was divided after 1680 when two heiresses inherited, but the two halves were reunited in the 1770s when Richard Pennant, later Lord Penrhyn, married Anna Susannah Warburton, the heiress of one half, and inherited the second half which his father had bought from Sir George Young. When bought the farms of Tal y Waen, Bodesi and Tal Llyn Ogwen in 1828 following the bankruptcy of the Coetmore estate, Penrhyn ownership in Capel Curig was complete.



Gilbert Jackson, 'John Williams, Archesgob Efrog (1582-1650)', a wnaeth brynu ac uno ystadau'r Penrhyn a Cochwillan ym 1622. Gilbert Jackson, 'John Williams, Archbishop of York (1582-1650)', who bought and united the Penrhyn and Cochwillan estates in 1622.



Louis Hague, 'Yr Wyddfa o Gapel Curig', yn dangos tyrpeg yr Hen a adeiladwyd ar dir Tyn Lon – a brynwyd gan ystâd y Penrhyn yn y 1810au. Louis Hague, 'Snowdon from Capel Curig', showing Hen turnpike built on Tyn Lon land – purchased by the Penrhyn estate c. 1818.



Blaen gorllewinol hen Gastell Penrhyn, gan Moses Griffiths yn ôl pob tebyg, c. 1790. The west front of old Penrhyn Castle, probably by Moses Griffiths, c. 1790.



Thomas Pennant a'r ymwelwyr cynnar


Thomas Pennant and the early visitors

Thomas Pennant o Sir y Fflint, a oedd yn naturiaethwr, hynafiaethwr ac yn ysgrifennwr teithio, oedd y cyntaf i roi cyhoedduswydd i dirlun darluniadwy Eryri. Creodd ei gofnod cyhoeddedig o'i lyfr A Tour in Wales ar gefn ceffyl ym 1778 ac ym 1783, wedi'i ddarlunio'n hael â 26 o blatau wedi'u hysgythru gan Moses Griffith, ffasiwn newydd ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Yng Nghapel Curig, disgrifiodd yn fywiog sut yr oedd 'Snowdon and all his sons . . . burst at once in full view, and make this far the finest approach to our boasted Alps'.

Thomas Pennant from Flintshire, a naturalist, antiquarian and travel writer, was the first to publicize the picturesque scenery of Snowdonia. The published record of his Tours in Wales on horseback in 1778 and 1783, lavishly illustrated with 26 engraved plates by Moses Griffith, created a new vogue for tourism in Wales. At Capel Curig, he described vividly how 'Snowdon and all his sons . . . burst at once in full view, and make this far the finest approach to our boasted Alps'.



Thomas Pennant



Edmund Becker, 'At Capel Curig 1811', mwy na thebyg yn portreadu fferm Bryn Engan.

Edmund Becker, 'At Capel Curig 1811', probably depicting Bryn Engan farm.



Moses Griffith, 'Snowdon from Capel Curig'.

Dilynodd llawer o dwristiaid yn ôl traed Pennant, gan gofnodi ac, ar adegau, cyhoeddi eu hanturiaethau. Byddai'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn yr 18fed ganrif yn aros yng Nghaernarfon neu Feddgelert, gan ychydig iawn oedd y cyfleusterau a gynigiai Capel Curig, a'r unig ffordd o'i gyrraedd oedd ar gefn ceffyl dros lwybrau garw. Roedd Arthur Aiken am aros dros nos ym 1796 i ymchwilio i'r ddaear leol, ond roedd yr holl dai wedi'u clou am fod y preswylwyr wedi mynd i ffair Llanrwst. Arhosodd William Bingley yn nhafarn Capel Curig ym 1798, gan ei galw'n 'dafarn fach ddi-nod' lle cafodd ei grŵp wyau, bacwn a chwrw newydd ofnadwy ar ôl iddynt wrthod yr afr sych yr oedd y dafarn yn enwog amdani. Mwy na thebyg, fferm Capel Curig oedd hon, lle'r oedd hawl gan y ffarmwr Owen Parry werthu cwrw yn y 1780au. Nid oedd Syr Richard Colt Hoare yn fwy canmoliaethus ar ei ymweliad cyntaf ef chwaith, pan ddywedodd iddo gael 'a frugal meal at a miserable hovel called an inn' cyn iddo farchogaeth ymlaen i Lanrwst.

Ar ôl i Dafarn Capel Curig agor ym 1800, dechreuodd niferoedd llawer yn uwch o dwristiaid, gan gynnwys menywod, ddod i fwynhau tirlun yr ardal, cerdded yn y mynyddoedd, llysieuau, mynd mewn cychod a physgota ar Llynau Mymbyr.



Becker, 'At Capel Curig' 1811', Pont dros Afon Llugwy.
Becker, 'At Capel Curig' 1811', Bridge over the Llugwy.

Many tourists followed in Pennant's footsteps, recording and sometimes publishing their adventures. Most eighteenth-century visitors stayed in Caernarfon or Beddgelert, as Capel Curig offered few facilities and could only be reached on horseback over rough tracks. Arthur Aiken wanted to stay overnight in 1796 to investigate the local geology, but found all the houses locked up because the inhabitants had gone to Llanrwst fair. William Bingley did stay at the Capel Curig public house in 1798, 'a mean pot-house' where his party got some eggs, bacon and dreadfully bad new ale, having declined the dried goat for which the house was famous. This was probably Capel Curig farm, where the farmer Owen Parry was licensed to sell ale in the 1780s. Sir Richard Colt Hoare was no more complimentary on his first visit the following year, when he had 'a frugal meal at a miserable hovel called an inn' before riding on to Llanrwst.

After the Capel Curig Inn opened in 1800, tourists including women, arrived in greatly increased numbers to enjoy the area's scenery, mountain walking, botanising, or boating and fishing on Llynau Mymbyr.



John Glover, 'Snowdon from Capel Curig'.

Y Glyderau a ddringodd Thomas Pennant ar ei ffordd o Capel Curig i Lanberis.
The Glyderau which Thomas Pennant climbed en route from Capel Curig to Lanberis. Pierino Algieri.

Y ffordd drwy Gapel Curig

The Capel Curig road

Yn y 1790au, adeiladodd yr Arglwydd Penrhyn ffordd o Borth Penrhyn ar hyd ochr ddeheuol Nant-y-benglog i Gapel Curig, lle cododd Dafarn Capel Curig. Ond roedd y ffordd yn ansefydlog a byddai coetsis yn troi drosodd weithiau. Roedd cwblhau'r llwybr fferi o Amwythig i Fangor yn golygu bod angen gwelliannau mawr ac, ym 1802, arweiniodd at greu Ymddiriedaeth Tollborth Capel Curig, a arweiniodd at lwybr byrrach o Bentrefoelas drwy Fetws y Coed a Chapel Curig i Landygái. Roedd yr Arglwydd Penrhyn yn fuddsoddwr mawr, ynghyd â gwestewyr Amwythig a oedd yn awyddus i ddal masnach Llundain i Ddilyn. Aeth y ffordd dollborth ar draws cors Nant-y-benglog ar lannau ac adeiladwyd pont newydd, yr Hen Bont, ger y Gelli. Agorodd y ffordd i goetsis ym 1805 a chafodd ei mabwysiadu gan y Postfeistr Cyffredinol ym 1808 ar gyfer post i Iwerddon.



'Richard Pennant, Barwn 1af Penrhyn' yn pwyntio at ei ffordd a Thafarn Capel Curig.
'Richard Pennant, 1st Baron Penrhyn' pointing to his road and the Capel Curig Inn.

In the 1790s, Lord Penrhyn built a road from Port Penrhyn along the south of Nant-y-Benglog to Capel Curig where he erected the Capel Curig Inn. But the road was precarious and coaches sometimes overturned. Completing the Shrewsbury to Bangor Ferry route required major improvements and led in 1802 to the formation of the Capel Curig Turnpike Trust, which pioneered a shorter route from Pentrevoelas via Betws y coed and Capel Curig to Llandegai. Lord Penrhyn was a major investor, together with Shrewsbury innkeepers keen to capture the London to Dublin trade. The turnpike road was carried across the Nant y Benglog marsh on an embankment and a new bridge, Hen Bont, was built near Gelli. The road opened to coaches in 1805 and was adopted by the Postmaster General in 1808 for the Irish mails.



P. S. Munn, 'On the road to Ogwen' (1832) sy'n dangos hen ffordd yr Arglwydd Penrhyn.
P. S. Munn, 'On the road to Ogwen' (1832) showing Lord Penrhyn's old road.




Catherine Jones, Helyg, y cwrdodd George Borrow â hi pan oedd hi'n blentyn ym 1854.


Catherine Jones, Helyg, who George Borrow met as a girl in 1854.

Ym 1815, rhoddodd y Senedd ganiatâd i Thomas Telford wella cyflwr y ffordd o Lundain i Gaerdybi. Roedd hyn yn cynnwys llinell newydd i ogledd Nant-y-benglog a tholty newydd, Ty'n y Lon. Gyda dyfodiad y rheilffordd ar yr arfordir gogleddol ym 1848-50, daeth uchafbwynt Capel Curig fel canolfan i goetsis i ben, er y defnyddid coetsis o hyd ar gyfer traffig lleol a theithiau i dwristiaid. Yn ei lyfr Wild Wales, disgrifiodd yr awdur George Borrow siarad â dau blentyn gwanlyd ym mwthyn Helyg yn Nant-y-benglog yn ystod ei daith gerdded ar hyd ffordd Capel Curig. Nid oeddent yn gallu darllen, ond dywedasant wrtho eu bod yn hapus pan oedd bara yn y tŷ a dim twymyn. Roedd gan eu rhieni, y chwarelwr Robert Jones a'i wraig Ann, naw o blant ac roeddent wedi symud i Helyg o Dy'n y Lon.

In 1815, Parliament authorised Thomas Telford to improve the condition of the London to Holyhead road. This included a new line on the north of Nant y Benglog and a new toll house, Ty'n y Lon. With the coming of the north coast railway in 1848-50, Capel Curig's coaching heyday was over, though coaches were still used for local traffic and tourist excursions. In Wild Wales, the author George Borrow described talking to two poor sickly children at Helyg cottage in Nant y Benglog during his walk along the Capel Curig road. They could not read, but told him they were happy when there was bread in the house and no fever. Their parents, quarryman Robert Jones and his wife Ann, had nine children and had moved to Helyg from Ty'n y Lon.



Hen Bont



Carreg filltir / Milestone



Tyn y Lon
Peter Smith

Tafarn Capel Curig

The Capel Curig Inn



Moses Griffiths, 'Capel Curig'.

Ym 1800, agorodd yr Arglwydd Penrhyn dafarn fach ond cyffyrddus yng Nghapel Curig a ddyluniwyd gan ei asiant, Mr Wyatt. Penodwyd Joseph Griffiths, hen fwtler, i reoli'r blaen tŷ a seler llawn nwyddau tra gofalai ei wraig, Elizabeth, am gadw'r tŷ. Roedd y telynor Evan Jones yn atyniad arall ac fe'i canmolai am ei berfformiadau o alawon o Gymru gan ymwelwyr lawer. Roedd hefyd yn gweithio fel arweinydd ar fynyddoedd Eryri, ac roedd yn llysiuwydd, yn weinydd ac yn ddehonglydd, gan dywys rhai grwpiau mor bell ag Ynys Môn. Gweithiodd yn y dafarn am 28 o flynyddoedd, gan wau wrth iddo gerdded, a'r tu allan i'r tymor twristaidd, ennill arian fel gwehydd i gefnogi ei rieni oeddrannus.



Bedd Evan Jones y telynor, mynwent y Santes Julietta. Grave of Evan Jones the harper, St Julitta's churchyard.

Roedd ymwelwyr cynnar yn frwdfrydig am gysuron a lleoliad y dafarn ond yn gyflym, nid oedd yn bodloni'r galw mwyach a byddai'n rhaid i ymwelwyr pwysig gysgu ar y llawr mewn tai allan. Fe'i hestynnwyd gan yr Arglwydd Penrhyn ym 1804 ac eto ym 1808 i ddarparu 35 o ystafelloedd gwely, 11 o bartylau, bar ac ystafell dd r. Roedd stablau ar gyfer 36 o geffylau post a 22 o geffylau boneddigion a thŷ coetsis ar gyfer 12 o gerbydau post, yn ogystal â thair dan glo i gerbydau ar gyfer chwe cherbyd preifat. Roedd tai allan yn cynnwys lle byw i chwe aelod o staff, lle i gyfrwyriar a gweision stabl, gefail gof a melyn dd r i yrru peiriannau er mwyn corddi menyn a pharatoi bwyd anifeiliaid. Roedd gan yr Arglwydd Penrhyn ddwy ystafell breifat ar ben gorllewinol y gwesty, ac yma y cafodd ei gorff ei arddangos yn gyhoeddus ar adeg ei farwolaeth ym 1808.

Bu farw'r Landlord Joseph Griffith ym 1810 a ddwy flynedd yn ddiweddarach, ailbriododd ei wraig weddw â Robert Hughes, curad Capel Curig. Yn dilyn marwolaeth Robert ym 1834, ymddeolodd Elizabeth i Lanrwst gan ddefnyddio ei chynilon sylweddol i fenthg morgeisiau i ffermwyr lleol, gan eu galluogi i brynu eu ffermydd eu hunain.

In 1800, Lord Penrhyn opened a small but comfortable inn at Capel Curig designed by his agent Mr Wyatt. Joseph Griffiths, a former butler, was appointed to manage the front of house and well-stocked cellar while his wife Elizabeth looked after the housekeeping. Evan Jones the harper provided another draw, his playing of Welsh airs commended by many visitors. He also acted as a guide to the Snowdonia mountains, botanist, waiter and interpreter, escorting some parties as far as Anglesey. He worked at the inn for 28 years, knitted as he walked, and outside the tourist season earned money as a weaver to support his aged parents.



Julius Ibbetson, 'John Smith the blind harper' sy'n dwyn golygfa yn Nhafarn Capel Curig i gof.

Julius Ibbetson, 'John Smith the blind harper' evokes a scene in the Capel Curig Inn.



George Romney, 'Lady Arabella Ward', a fu farw yn y dafarn ar y ffordd i Iwerddon. George Romney, 'Lady Arabella Ward', who died at the inn en route to Ireland.

Early visitors were enthusiastic about the inn's comforts and situation, but it rapidly proved too small and important visitors were obliged to sleep on the floor or in outbuildings. Lord Penrhyn extended it in 1804 and again in 1808 to provide 35 bedrooms, 11 parlours, a bar and tap room. There was stabling for 36 post horses and 22 gentlemen's horses, a coach house for 12 post carriages plus lock-up coach houses for six private carriages. Outbuildings included six staff dwellings, rooms for saddlers and ostlers, a smithy, and a water mill to drive machinery for churning butter and preparing animal feed. Lord Penrhyn kept two private rooms at the west end of the hotel, and it was here that he was laid in state on his death in 1808.

Landlord Joseph Griffith died in 1810 and two years later, his widow Elizabeth remarried to Robert Hughes, the Capel Curig curate. After Robert's death in 1834, Elizabeth retired to Llanrwst and used her considerable savings to lend mortgages to local farmers, enabling them to buy their own farms.



Frances Elizabeth Wynne, a) 'Capel Curig Esquimaux', postiliwn, b) 'Hostler'. Frances Elizabeth Wynne, a) 'Capel Curig Esquimaux', a postilion, b) 'Hostler'.



Philip de Loutherbourg, 'Llyn Ogween' – arweinydd nodiadau yn dal y ceffylau. Philip de Loutherbourg, 'Llyn Ogween' – note guide holding the horses.

Y Pentrefan The Hamlet

Disgrifiodd Thomas Pennant Capel Curig fel 'eglwys fechan ac ychydig o dai wedi'u gwasgaru'. Ym 1790, roedd y pentrefan yn cynnwys ychydig o adeiladau fferm yn unig o amgylch yr eglwys a'r Gelli, ond daeth llawer o weithwyr newydd i'r ardal yn sgil ffordd coetsis a thafarn yr Arglwydd Penrhyn. Llenwyd y bythynnod o amgylch y gwesty a'r eglwys â theuluoedd coetsymyn, gyrrwyr cerbydau, gofalwyr, gweinyddion, telynor, gof du a siopwr. Byddai llawer o fenywod lleol yn cardio ac yn nyddu gwlan, a byddai'r ddau ryw yn gweu hosanau y byddent yn eu gwerthu ym marchnad Llanrwst i ychwanegu at eu hincwm.

Thomas Pennant described Capel Curig as a 'small church and a few scattered houses'. In 1790, the hamlet comprised just a few farm buildings around the church and Gelli, but Lord Penrhyn's coach road and inn brought many new workers to the area. The families of coachmen, chaise drivers, hostlers, waiters, a harper, blacksmith and shopkeeper crowded into cottages around the hotel and church. Many local women carded and spun wool, and both sexes knitted stockings which they sold at Llanrwst market to supplement their incomes.

The village expanded to the east bank of the Llugwy when Tyn Lon farm became part of the Penrhyn estate in 1808. Posting stables were initially provided by the inn, but when it was bypassed by Telford's road, the Penrhyn estate built New Stable Yard enabling travelers to change horses nearer to the road. A taproom provided refreshments for people without time to visit the inn. The Yard cottages provided improved accommodation for some of the coaching workers. A tollhouse was built in 1811 on the turnpike road, but this was replaced a few years later by Telford's toll house Ty'n y Lon. Both cottages were usually occupied by coachmen or hostlers while their wife collected the tolls. The old turnpike cottage was still inhabited till the 1870s.



Syr Richard Colt Hoare, 'The Capel Curig Inn with Snowdon at a distance' (1810) yn dangos y pentrefan.
Sir Richard Colt Hoare, 'The Capel Curig Inn with Snowdon at a distance' (1810) shows the hamlet.



Adeiladwyd Teras Llugwy fel Iard Stablau Newydd.
Llugwy Terrace was built as New Stable Yard.



Menyw o Gymru yn gwau.
Welsh woman knitting.

Ehangodd y pentref i lannau dwyreiniol y Llugwy pan ddaeth fferm Tyn Lon yn rhan o ystâd Penrhyn ym 1808. Darparid stablau post gan y dafarn i gychwyn, ond pan aeth ffordd Telford heibio iddi, adeiladodd ystad Penrhyn Iard Stablau Newydd a oedd yn galluogi teithwyr i newid ceffylau yn agosach i'r ffordd. Roedd ystafell ddŵr yn darparu lluniaeth i bobl nad oedd ganddynt yr amser i ymweld â'r dafarn. Cynigai bythynnod yr Iard lety gwell i rai o'r gweithwyr coetsis. Adeiladwyd tollty ym 1811 ar ffordd y tollborth, ond cafodd hwnnw ei ddisodli ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach gan dollty Telford, Ty'n y Lon. Fel arfer, gyrrwyr coetsis neu ofalwyr y byddai'n gweithio yn y bythynnod, wrth i'w gwagedd gasglu'r tollau. Roedd pobl yn byw yn hen fwthyn y tollborth hyd at y 1870au.




Louisa Costello, Dwy fenyw yng Nghapel Curig (1845).
Louisa Costello, Two Capel Curig women (1845).

Ym 1851, yn ogystal â'r 13 aelod o staff y gwesty a'r fferm a oedd yn byw yn Nhafarn Capel Curig, roedd 31 o bobl a oedd yn gweithio yn y gwesty, y ffermydd a'r chwareli yn byw yn yr hen bentrefan. Roedd rhai yn ychwanegu at eu cyflogau drwy rentu gwelyau tatws, lle gwartheg neu dir mawn o'r dafarn. Ond o ganlyniad i'r lleihad mewn traffig coetsis, roedd y bythynnod ger yr eglwys mwy neu lai'n wag erbyn 1861. Llenwyd porth bwaog mynedfa Iard Stablau Newydd gyda bwthyn ychwanegol yn y 1860au a chafodd ei aileniwi'n Deras Llugwy.

In 1851, in addition to 13 hotel and farm staff living in the Capel Curig Inn, 31 people working at the hotel, farms and quarries occupied the old hamlet. Some supplemented their earnings by renting potato patches, cow-keep or peat grounds from the inn. But the decline in coaching traffic led to the cottages by the church being largely abandoned by 1861. New Stable Yard's entrance archway was filled in with an extra cottage in the 1860s and it was renamed Llugwy Terrace.



Diwedd y daith.
Journey's end.



Braslun P. B. Duncan 'Capel Curig Church' (1804) gydag un o fythynnod y pentrefan, a gefail gof yn ddiweddarach.
P. B. Duncan's sketch 'Capel Curig Church' (1804) with one of the hamlet cottages, later a smithy.

Y gymuned ffermio

The farming community



Fferm Gwen y gof uchaf ym 1810. Sir Richard Colt Hoare, 'Mynydd Trefaen ar y ffordd i Fangor'.
Gwen y gof uchaf farm in 1810. Sir Richard Colt Hoare, 'The Trefaen mountain on the road to Bangor'.

Ym 1790, canolbwyntiodd ffermydd Capel Curig yn bennaf ar fagu gwartheg, yr oedd porthmyn yn mynd i farchnadoedd Lloegr. Roeddent hefyd yn cadw gwartheg llaeth ac yn tyfu ychydig o geirch, ond roedd hyd yn oed ffermydd mawr fel Capel Curig a Tal y Braich yn cadw dim ond rhwng 100 a 200 o ddefaid. Roedd y boblogaeth yn tyfu'n raddol ac nid oedd digon o ffermydd ar gael i holl feibion y ffermwyr a oedd am gael eu tenantiaeth eu hunain, a dim ond ychydig o ffermwyr oedd â digon o gyfalaf i stocio fferm fawr. Un ateb oedd isrannu neu rannu ffermydd, er enghraifft rhannwyd Dyffryn Mymbyr gan ddau i bedwar ffermwr tan 1815, Tal y Braich gan dri a Gelli gan ddau.


Fe wnaeth agor Tafarn Capel Curig gyflwyno newidiadau pwysig i ffermio Capel Curig. Roedd ar y gwesty angen cyflenwad o geirch a gwair ar gyfer ei geffylau ei hun a cheffylau ymwelwyr, yn ogystal â llaeth, meny, cig a dofednod ffres. Cymerodd y dafarn reolaeth ar ffermydd Capel Curig a Gelli a chodwyd adeiladau fferm enghreifftiol gerllaw Pont y Capel. Fe gafodd Dôl Llech, a fu gynt yn fferm allanol i'r Gelli, ei dorri i ffwrdd fel fferm fach ar wahân.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe adeiladodd yr ystâd waliau ar fynyddoedd i alluogi defaid i bori ar y mynyddoedd yn yr haf, tra bod dolydd is yn cael eu torri ar gyfer gwair. 1851 oedd yr uchafbwynt ym mhoblogaeth ffermio Capel Curig. Roedd 71 o bobl ar diroedd Penrhyn yn gweithio mewn amaethyddiaeth - 37 o ffermwyr ac aelodau eu teuluoedd a 34 o weision fferm a llafurwyr. Pan ddaeth grawn a oedd wedi'i fewnforio yn rhatach ar ôl 1850, fe wnaeth ffermwyr Capel Curig gwtogi ar eu cynydu'n raddol a chanolbwyntio'n fwy ar ffermio defaid. Erbyn 1901, dim ond 17 o ffermwyr ac aelodau eu teuluoedd, ynghyd â 15 o lafurwyr amaethyddol a gweision oedd yn gweithio ar ffermydd.

In 1790, Capel Curig farms concentrated largely on rearing cattle, which were taken by drovers to English markets. They also kept milk cows and grew a small amount of oats, but even large farms like Capel Curig and Tal y Braich kept only 100 to 200 sheep. Population was growing steadily and there were not enough farms available for all the farmers' sons who wanted their own tenancy, and few farmers had enough capital to stock a large farm. A solution was to sub-divide or share farms, for example Dyffryn Mymbyr was shared by two to four farmers until 1815, Tal y Braich by three and Gelli by two.

The opening of the Capel Curig Inn brought important changes to Capel Curig farming. The hotel needed a supply of oats and hay for its own and visitors' horses, as well as milk, butter, fresh meat and poultry. The inn took over Capel Curig and Gelli farms and model farm buildings were erected beside Pont y Capel. Dôl Llech, previously an out-farm for Gelli, was hived off as a separate small farm.


In the nineteenth century the estate built mountain walls to allow sheep to graze on the mountains in summer, while lower meadows were cut for hay. 1851 was the high point in Capel Curig's farming population. 71 people on Penrhyn lands worked in agriculture - 37 farmers and their family members and 34 farm servants and labourers. When imported corn became cheaper after 1850, Capel Curig farmers phased out their crops and concentrated more on sheep farming. By 1901, only 17 farmers and family members, plus 15 agricultural labourers and servants worked on farms.



Adeiladwyd fferm enghreifftiol Capel Curig pan wnaeth y dafarn gymryd rheolaeth ar ffermydd Capel Curig a Gelli.
Capel Curig model farm built when Capel Curig and Gelli farms were taken over by the Inn.



Fe wnaeth fferm Dôl Llech arallgyfeirio yn yr 20fed ganrif.
Dôl Llech farm diversified in the 20th century.



Tas Wair to gwellt yn gynnar yn y 19eg ganrif ar lwyfan cerrig.
Early 19th-century thatched haystack on stone platform.



Frances Elizabeth Wynne, 'Rhyd y Creuau' yn dangos cegin ffermydd nodweddiadol o'r 19eg ganrif yn Eryri.
Frances Elizabeth Wynne, 'Rhyd y Creuau' showing a typical 19th century Snowdonia farmhouse kitchen.

Pladuro gwair ar Tal y Braich.
Hay harvest at Tal y Braich.

Fferm Dyffryn Mymbyr

Dyffryn Mymbyr farm

Fe ddaeth Dyffryn Mymbyr yn rhan o ystâd y Penrhyn ym 1445-8 pan brynodd Joan Stanley a'i mab William Griffith y cyfranddaliadau a ddaliwyd gan chwe rhydd-ddeiliad Cororion. Ym 1609 trosglwyddodd y fferm fynydd fawr a basiwyd i'r Thelwalls o Blas y Ward, Rhuthun ar ôl i Pys Griffith o'r Penrhyn fethu ag adalu morgais. Fe'i gwerthwyd yn fuan wedyn er mwyn gwaddoli ysgol rydd David Hughes ym Miwmares, ond fe ddychwelodd i ystâd y Penrhyn ym 1789 pan gyfnewidiodd Richard Pennant diroedd yn Ynys Môn am Ddyffryn Mymbyr.

Hugh ac Owen Williams oedd tenantiaid newydd cyntaf y Penrhyn. Roedd Hugh hefyd yn rhentu fferm Onnenebryd yn Llanbedr-y-Cennin, lle mae'n debygol bod ŵyn Dyffryn wedi cael eu hanfon i aros dros y gaeaf. Daeth gwas fferm o Onnenebryd am bythefnos bob haf i helpu â'r cynhaeaf gwair.

Fe ddechreuodd cysylltiad hir teulu Roberts â Dyffryn Mymbyr oddeutu 1810 pan ddaeth Robert Edwards o Llanllechid yn denant gan dalu £230 y flwyddyn. Fe ddilynwyd ef ym 1819 gan ei bedwar plentyn di-briod, a ffurfiodd gyd-bartneriaeth i redeg y fferm ac i brynu fferm yn Llanllechid. Pan briododd un brawd ac un chwaer gan adael Dyffryn Mymbyr, fe brynodd eu cyd-bartneriaid eraill eu cyfrannau. Bu farw yr ail frawd sef Hugh ym 1840, gan adael Henry Roberts fel yr unig denant oedd yn weddill. Fegymrodd ei weddw Catherine reolaeth ar y fferm ym 1859: roedd ganddi wyth plentyn rhwng 0 a 18 oed ac rfe wnaeth gyflogi athrawes gartref i addysgu'r rhai iau. Fe reolodd hi'r fferm nes iddi farw ym 1890.

Am nifer o flynyddoedd, nid oedd neb yn barod i gymryd tenantiaeth y fferm heriol hon. Fe wnaeth ystad y Penrhyn gyflogi beili i'w rheoli a daeth bugeiliaid bob blwyddyn o ffermydd y Penrhyn yn Ysbyty Ifan i helpu â'r cneifio.

Y ffermdy yn yr 16eg ganrif.
The 16th-century farmhouse.



Y ffermdy newydd a adeiladwyd ar ran Catherine Roberts ym 1859.
The new farmhouse built for Catherine Roberts in 1859.



Popty domestig y ffermdy newydd
The new farmhouse domestic range.

Roedd un manwr yn byw yn Hafodty tan ddechrau'r 19eg ganrif.
Hafodty was occupied by one sharer till the early 19th century.




Rob Piercy, Dyffryn Mymbyr

